Lefel 2

MEINI PRAWF CYMERADWYO

Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

MAI 2019

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	1
Strwythur y cymhwyster	2
Nodau ac amcanion pwnc	3
Cynnwys y pwnc	3
Cynllun asesu	4
Amcanion asesu	4
Deilliannau	5
Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo	5
Gofynion rhesymeg	5
Gofynion gweithredol	6
Atodiad A	8

Mae hon yn **Ddogfen Reoleiddio** o dan **Amod B7** o'r *Amodau Cydnabod Safonol (Mawrth 2017)*[1]: *Cydymffurfio â Dogfennau Rheoleiddio.*

[1] http://qualificationswales.org/publications/standard-conditions-of-recognition-march-2017/?lang=cy

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau. Datblygwyd y rhain drwy waith ymgysylltu â rhanddeiliaid, a oedd yn cynnwys grwpiau ffocws ac arolygon ar-lein. Mae'r meini prawf cymeradwyo hyn yn cynnwys y gofynion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu eu bodloni wrth ddatblygu manyleba deunyddiau asesu cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau.

Dylai'r cymhwyster hwn gael ei gynllunio i'w gyflwyno gan amrywiaeth o ddarparwyr dysgu, gan gynnwys addysg bellach, ar gyfer dysgwyr 16 oed a throsodd.

Pan fo'n briodol, dylai'r cymhwyster hwn alluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy, gan gynnwys sgiliau cyfathrebu, llythrennedd, cymhwysedd digidol a rhifedd.

Daw'r meini prawf cymeradwyo yn y ddogfen hon i rym o fis Mawrth 2019 a chânt eu hadolygu yn 2022.

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru benderfyniad i gyfyngu ar gyfres newydd o gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant[2] i'w haddysgu ar raglenni dysgu a ariennir gan arian cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r gyfres hon yn cynnwys y cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau. Dylai'r cymhwyster hwn fod wedi'i gynllunio er mwyn helpu unigolion i symud ymlaen i astudiaethau pellach a lefel uwch neu hyfforddiant.

Cyfyngir ar yr holl gymwysterau yn y gyfres am gyfnod o bum mlynedd o naill ai 1 Medi 2019 neu 1 Medi 2020 er mwyn sicrhau mai dim ond un fersiwn ohonynt sydd ar gael. Mae hyn yn golygu mai dim ond un corff dyfarnu a all ddyfarnu pob cymhwyster. Yn dilyn proses gaffael deg a thryloyw a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr 2017 a mis Awst 2017, mae Cymwysterau Cymru wedi llunio contract â chonsortiwm sy'n cynnwys City & Guilds of London Institute a CBAC i ddatblygu a chyflwyno'r holl gymwysterau yn y gyfres ar y cyd.

Dim ond cymhwyster sy'n bodloni'r holl ofynion a nodir yn y ddogfen hon, ynghyd â'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol*[3] y bydd Cymwysterau Cymru yn ei gymeradwyo. Wrth ddatblygu'r cymwysterau i fodloni'r gofynion hyn, rhaid i gyrff

[2] http://qualificationswales.org/media/2534/230517-determination-to-restrict-hsc-final-w.pdf

[3] http://qualifications.wales/cymraeg/ein-gwaith/rheoleiddio-cyrff-dyfarnu/monitro-cyrff-dyfarnu/

dyfarnu ystyried *Fair Access by Design*[4]. Rhaid i'r corff dyfarnu a gomisiynwyd hefyd fodloni'r holl ofynion a nodir yn y *contract consesiwn* a ddyfarnwyd yn ystod camau datblygu, cymeradwyo, gweithredu a chyflwyno'r cymhwyster.

Pan fo gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo Pwnc a nodir yn y ddogfen hon yn wahanol i'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol*, y gofynion yn y ddogfen hon fydd drechaf.

Strwythur y cymhwyster

1. Rhaid i'r canlynol ymddangos ar dystysgrifau fel teitl y cymhwyster:

   Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau.

2. Rhaid i fanyleb Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

   2.1. gynnig tystysgrif am gymhwyster o 200 o Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA) i ddysgwyr a bydd angen ei diffinio o ran Cyfanswm Amser Cymhwyso (TQT) a chredydau;

   2.2. cynnwys unedau gorfodol yn unig (Grŵp A, gweler Atodiad A).

3. Rhaid i gynllun Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau sicrhau y caiff nodau ac amcanion y pwnc eu hadlewyrchu yn yr asesiadau i alluogi dysgwyr i ddangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth.

4. Rhaid i Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau gynnwys ymgysylltu gorfodol â'r sector am isafswm o ddeg diwrnod, i gynnwys lleoliad gwaith gorfodol. Rhaid i'r fanyleb roi manylion y gofynion sylfaenol ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu â'r sector. Rhaid annog y canolfannau i sicrhau, lle y bo'n bosibl, fod dysgwyr yn cael profiad o isafswm o ddau leoliad gwahanol yn ystod y cyfnod o ymgysylltu â'r sector.

5. Rhaid i fanyleb Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau gynnwys y datganiad canlynol:

   Mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae'n ofynnol i ddysgwr eu cyflawni fel rhan o'r cymhwyster hwn yn adeiladu ar gynnwys y cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd. Argymhellir yn gryf y dylai dysgwr sy'n

[4] http://gov.wales/docs/dcells/publications/150727-fair-access-by-design-en.pdf

ymgymryd â'r cymhwyster hwn fod wedi cwblhau neu fod wrthi'n cwblhau'r cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd. Noder ei bod yn ofynnol gan Gofal Cymdeithasol Cymru i unigolyn sy'n gweithio yn y sector Gofal Cymdeithasol feddu ar y cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd er mwyn gweithio o fewn swyddi penodol. I gael rhagor o wybodaeth am y gofynion ar gyfer gweithio yn y sector Gofal Cymdeithasol, cyfeiriwch at wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Nodau ac amcanion y pwnc

6. Rhaid i Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau alluogi dysgwyr i ddatblygu a dangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o fewn cyd-destun gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn arbennig, dylai dysgwyr allu dangos eu bod yn:

    6.1. deall yr egwyddorion a'r gwerthoedd craidd sy'n sail i ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol a'u rhoi ar waith mewn amrywiaeth o gyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol;

    6.2. deall y ffyrdd y gellir nodi anghenion unigryw unigolion ac ymateb iddynt;

    6.3. myfyrio ar y ffordd y caiff dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar unigolion eu mabwysiadu mewn cyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol;

    6.4. deall rolau swyddi a swyddogaethau o fewn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol;

    6.5. deall y ffyrdd y mae lleoliadau, asiantaethau a gwasanaethau gwahanol yn cydweithio i ddarparu gofal i unigolion;

    6.6. defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel y bo'n briodol i'w hastudiaeth.

Cynnwys y pwnc

7. Rhaid i gynnwys manyleb Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau adlewyrchu nodau ac amcanion y pwnc.

8. Rhaid i fanyleb Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau gynnwys yr holl gynnwys a nodir yn Atodiad A.

Cynllun asesu

9. Caiff 60% o Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau ei hasesu'n fewnol, a chaiff 40% ei hasesu'n allanol.

10. Bydd yr asesiad mewnol:

    10.1. yn cynnwys tasg neu dasgau a bennir gan friff a gaiff ei ryddhau ymlaen llaw ar ddechrau'r cwrs astudio;

    10.2. yn cynnwys asesiad o'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a feithrinwyd gan y dysgwr drwy'r ymgysylltu gorfodol â'r sector (isafswm o ddeg diwrnod);

    10.3. yr un mor heriol i bob dysgwr, beth bynnag yw'r asesiad a gymerir;

    10.4. yn nodi'r math o dystiolaeth a faint o dystiolaeth i'w chasglu at ddibenion asesu.

11. Bydd yr asesiad allanol yn cynnwys arholiad.

12. Rhaid i'r mathau o gwestiynau, lle y bo'n briodol, roi'r cyfle i ddysgwyr gyflwyno cymysgedd o ymatebion byr ac ymatebion estynedig.

13. Rhaid i feini prawf marcio nodi sut mae pob cwestiwn neu dasg asesu yn ymwneud â'r amcanion asesu.

14. Rhaid i fanyleb Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau gynnwys manylion am gyfleoedd asesu, gan gynnwys ailsefyll.

Amcanion asesu

15. Rhaid i'r asesiad o'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol yn y fanyleb dargedu'r amcanion asesu canlynol, yn unol â'r pwysoliadau a roddir:

Amcan	Gofynion	Pwysoliadau
AA1	Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.	O leiaf 35%
AA2	Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.	O leiaf 35%
AA3	Dadansoddi a myfyrio ar agweddau ar egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.	O leiaf 15%

Y rhesymeg sydd ei hangen: wrth gyflwyno'r fanyleb i'w chymeradwyo, bydd angen i'r corff dyfarnu gynnig rhesymeg o ran sut mae pwysoliadau terfynol yr amcanion asesu wedi cael eu penderfynu, a nodi hefyd a fyddant yn rhai penodol dros oes y cymhwyster neu'n amrywio yn ôl y gyfres.

Deilliannau

16. Caiff dysgwyr sy'n cwblhau'r holl asesiadau gofynnol yn llwyddiannus dystysgrif. Caiff cyrhaeddiad dysgwyr ei raddio fel Llwyddo, Teilyngdod a Rhagoriaeth.

Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo

17. Wrth gyflwyno cymhwyster i Cymwysterau Cymru i'w gymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu'r canlynol:

    17.1. dogfen fanyleb;

    17.2. deunyddiau asesu enghreifftiol;

    17.3. dogfen esboniadol (dogfen resymeg) yn amlinellu'r rhesymeg dros nodweddion dylunio allweddol y cymhwyster arfaethedig a'u cydnawsedd â chanfyddiadau'r *Adolygiad Sector o Gymwysterau a'r System Gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys gofal plant a gwaith chwarae*[5].

Gofynion rhesymeg

18. Diben y ddogfen resymeg yw cynorthwyo'r broses o adolygu a chymeradwyo cymhwyster, ac ni fwriedir iddi gael ei chyhoeddi.

19. Rhaid i'r ddogfen resymeg esbonio'r canlynol:

    19.1. strwythur y cymhwyster, a'r rhesymau dros strwythuro'r cynnwys yn y ffordd honno;

    19.2. sut y caiff tasgau eu datblygu a'u mireinio dros amser;

    19.3. y strwythur asesu, gan gynnwys, lle y bo'n briodol, nifer yr asesiadau, eu pwysoliadau, y marciau sydd ar gael a hyd yr asesiadau;

[5] https://qualifications.wales/cymraeg/cymwysterau/cymwysterau-galwedigaethol/adolygiadau-sector/iechyd-gofal-cymdeithasol-a-gofal-plant/

19.4. sut y caiff yr amcanion asesu neu'r deilliannau dysgu eu dehongli lle y bo'n berthnasol, a sut y pennwyd gwasgariad yr amcanion asesu neu'r deilliannau dysgu ar draws yr asesiadau ac o'u mewn;

19.5. cynllun meini prawf marcio a sut y cânt eu defnyddio;

19.6. sut mae'r cymhwyster yn adlewyrchu cyd-destun Cymreig;

19.7. y gofynion sylfaenol ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu â'r sector;

19.8. y broses ar gyfer gosod a chynnal safonau yn y cymhwyster;

19.9. y broses a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymhwyster, gan gynnwys rhesymeg dros y ffiniau gradd arfaethedig ar lefel asesiadau a'r cymhwyster.

Gofynion gweithredol

20. Rhaid i'r fanyleb nodi'r gofynion gwybodaeth a chymhwysedd (pwnc ac asesu/sicrhau ansawdd) ar gyfer aseswyr, sicrhawyr ansawdd mewnol a sicrhawyr ansawdd allanol.

21. Rhaid i fanyleb y cymhwyster gynnwys gwybodaeth benodol am ofynion gweithredol, gan gynnwys:

21.1. cofrestriadau;

21.2. sicrhau ansawdd;

21.3. prosesau asesu allanol.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Ymholiadau
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Pencarn Lane
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR

ymholiadau@cymwysteraucymru.org

Atodiad A – Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Rhaid i fanyleb Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau gynnwys y cynnwys canlynol. Mae hyn yn 100% o gyfanswm cynnwys y cymhwyster.

Maes pwnc	Maes is-bwnc
1. Hybu iechyd a llesiant ar bob cam o fywyd	1.1. Agweddau corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol allweddol sy'n effeithio ar dwf a datblygiad yn ystod oes unigolion 1.2. Dylanwad ffactorau bywyd, dewisiadau ffordd o fyw a digwyddiadau bywyd ar dwf, iechyd a llesiant 1.3. Y ffactorau sy'n llywio hunangysyniad 1.4. Rôl a diben hybu iechyd a llesiant
2. Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal sy'n canolbwyntio ar unigolion	2.1. Yr amrywiaeth o anghenion unigol yn ystod oes unigolion 2.2. Yr amrywiaeth o gyfleoedd a heriau lleol a ledled Cymru 2.3. Rolau a chyfrifoldebau gweithwyr yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol 2.4. Deddfwriaeth ac egwyddorion gofal a chymorth